

Tasg 3

Ffordd o feddwl

Darllenwch y gerdd hon o waith y bardd, Mari George, sy'n sôn am ei phrofiad hi o fyd chwaraeon. Wedyn, argraffwch gopi ohoni cyn ateb y cwestiynau isod.

Y RAS

Wynebau'n llawn gobaith
yn edrych arna i.

Ar eich marciau.

Barod.

Ewch.

A dw i ar 'i hôl hi'n barod,

gam tu ôl i bawb arall

yn pwffian,

yn goch fy mochau.

Y wynebau'n toddi'n

un lliw.

Dw i'n teimlo'n sâl,

coesau jeli

a stumog yn rhwygo

fel papur ...

Colli ngwynt,

a'r cwbl dw i'n 'i glywed yw

'Rheda'n gynt!'

Ac yna'r clwydi

yn dod tuag ata i

yn anferth

a dw i'n camu yn igam ogam,

neidio'n rhy gyflym,

taro un o'r clwydi

a dyna'i diwedd hi.

Er trio ngore glas

dw i ddim yn ddigon heini

i redeg ras.

Ond fe af ati

i ymarfer

derbyn yr her

a fi fydd y gorau

yn y mabolgampau,

yn hedfan dros glwydi

fel aderyn
a churo'r gelyn.

Credwch chi fi
pan reda i eto
dw i'n addo
bydd pawb yn cymeradwyo.

(Mari George, LLUNIAU YN FY MHEN – Gomer)

- Beth mae'r bardd yn trio'i ddweud?
- Sut mae'r gerdd yn gwneud i chi deimlo?
- Tanlinellwch bob ansoddair sydd yn y gerdd.
- Chwiliwch am bob cymhariaeth a throsiad sydd yn y gerdd a gwnewch restr ohonyn nhw. Sawl un sydd yno?
- Tanlinellwch bob priod-ddull.
- Tanlinellwch bob pâr o eiriau sy'n odli â'i gilydd. Sawl pâr sydd yno?
- Rhowch gynnig ar greu eich cerdd rydd eich hun – hyd at 20 llinell – sy'n sôn am brofiad da a gawsoch chi ym myd chwaraeon.

Cofiwch:

- does dim angen odlau mewn cerdd rydd
- disgrifiwch eich profiadau'n gryno a chlir
- defnyddiwch gymariaethau neu drosiadau
- meddyliwch am sŵn y geiriau
- meddyliwch am rythm y geiriau.